**Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y rhith-gyfarfod a gynhaliwyd am 11.25 ddydd Iau 30 Mawrth 2023 drwy Zoom

Yn bresennol:

Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Justin Albert
Emlyn Dole
Yr Athro Kyle Erickson
Taya Gibbons
Yr Athro Medwin Hughes
Rowland Jones
Timothy Llewelyn
Arwel Ellis Owen
Dr Conny Matera Rogers

Victoria Provis
Emlyn Schiavone
Dr Liz Siberry
Dr Peter Spring
Maria Stedman
Dr Kerry Tudor

Sylwedydd PC
Nigel Roberts

Yn bresennol hefyd:
Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Rebecca Doswell, Pennaeth Polisi a Chynllunio
Yr Athro Elena Rodriguez-Falcon, Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor

Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Lynwen Davies (Cyfieithydd)
Rebecca Doswell, (Pennaeth Polisi a Chynllunio)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

| Rhif y Cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 23.20 | DERBYNIODD y Cyngor ymddiheuriadau am absenoldeb gan Siwan Davies, Uzo Iwobi, Vanessa Liverpool, Geraint Roberts a Dr Andrew Cornish. | |

| Rhif y Cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| Ymddiheuriadau am absenoldeb | | |
| 23.21<br>Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cyngor y Datganiadau o Fuddiannau fel y'u nodir yn adroddiad y Clerc (CO512). | |
| 23.22<br>Adroddiadau Bwrdd Coleg Sir Gâr | Mae'r eitem hon DAN GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. | |
| 23.23<br>Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023 (CO513).<br><br>Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor adroddiad ar y drafodaeth ynghylch cadw myfyrwyr. Nododd aelodau yn y cyd-destun hwn fod y Cyngor wedi cymeradwyo'r Strategaeth Llwyddiant Academaidd a oedd yn amlinellu gweithgarwch gweithredol i wella perfformiad yn y maes hwn.<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor argymhellion y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad mewn perthynas â chynlluniau pensiwn, fel a ganlyn:<br><br>• o ran cynllun LGPS (Abertawe), roedd y Brifysgol wedi mabwysiadu cynnig tri cham, a amlinellwyd gan swyddogion, nad oedd â chost ychwanegol i'r drefn ragosodedig, ar gyfanswm cost uwch dros dair blynedd o £521,639. Nod hyn fyddai dod ag elfen ragweladwy i'r cynllun a dileu'r risg o atebolrwydd ymadael terfynol uchel;<br><br>• mabwysiadu newid ym mhwysoliad buddsoddiadau yng nghynlluniau mewnol UWSS ac UWLPS yn unol ag argymhelliad Ymddiriedolwyr yr UWLPS/UWSS | |
| 23.24<br>Adroddiad monitro blynyddol ar y Cynllun Strategol | YSTYRIODD y Cyngor yr adroddiad monitro blynyddol ar Gynllun Strategol 2021/22 (CO514) | |
| 23.25<br>Adroddiad Monitro DPA | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad monitro DPA (CO515). | |
| 23.26 | YSTYRIODD y Cyngor yr adroddiad ariannol a llif arian parod (CO516). | |

| Rhif y Cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| .Adroddiad ariannol a llif arian parod | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol ddiweddariad ar y perfformiad a ragwelwyd ar gyfer PCYDDS am y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2023.<br><br>Adroddodd y CGA fod y Brifysgol mewn sefyllfa dda yn gyffredinol. Cyfeiriodd at yr her o ran incwm yn deillio o incwm myfyrwyr y chwarter cyntaf, a oedd yn cael ei yrru i raddau helaeth gan y nifer sylweddol o achosion o fyfyrwyr yn tynnu nôl a broseswyd yn ystod y cyfnod hwnnw, yn gysylltiedig â chyfnodau addysgu y flwyddyn flaenorol, a gwerth hynny o ran incwm. Roedd cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth ddrwgddyled ar Orffennaf 2022 a wnaed i liniaru'r mater datblygol hwn.<br><br>Adroddodd y CGA, gyda'r derbyniadau yn ystod y flwyddyn ar y lefel a ragwelwyd a'r arbedion yn parhau o ran gwariant heblaw cyflogau a gwariant y gyflogres (drwy amseru'r recriwtio), rhagwelwyd o hyd y byddai'r Brifysgol yn sicrhau gwarged o c£5m ar gyfer y flwyddyn, gyda disgwyl i'r diffyg cyfredol a ragwelwyd mewn perfformiad arian parod gael ei reoli yn ystod ail hanner y flwyddyn i ddychwelyd i sefyllfa'r gyllideb.<br><br>Nododd y CGA nad oedd unrhyw risgiau ychwanegol i'w hadrodd ynghylch perfformiad 2022/23 ar hyn o bryd, gan nodi fod y recriwtio gwirioneddol yn nhymor 3, ynghyd â'r ffocws ar gadw myfyrwyr, yn allweddol i sicrhau gwarged.<br><br>Adroddodd y CGA fod y ffocws wedi symud nawr at broses y gyllideb ar gyfer 2023/24. Byddai risgiau allweddol o ran cyfleustodau, chwyddiant cyffredinol a dyfarniadau cyflog ar gyfer blynyddoedd i ddod yn cael eu rheoli'n briodol.<br><br>Cyfeiriodd y CGA at y refeniw cyfalaf gan CCAUC a nododd y byddai'n is na'r disgwyl.<br><br>Cyfeiriodd y CGA at gostau a nododd arbedion mewn costau cyflog yn erbyn y gyllideb. Roedd disgwyl i'r gwariant gynyddu erbyn diwedd Gorffennaf ond byddai'r proffil cost yn parhau yn unol â'r disgwyl.<br><br>Cyfeiriodd y CGA at y trafodaethau cyflog a nododd y cytunwyd ar gyfartaledd o 5% o godiad cyflog ar gyfer 2023-24 i'w weithredu o fis Chwefror ymlaen. Roedd y rhagolwg wedi cynnwys cynnydd o 2% ond roedd y Brifysgol yn fwy nag abl i dalu'r cynnydd ychwanegol. Adroddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol fod cynnydd o 8% wedi'i ddyfarnu i'r rhai ar ben isaf y raddfa gyflog yn sgil y cynnydd mewn costau byw. | |

| Rhif y Cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 23.27<br>Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 26/01/23 a 06/03/23 | CYMERADWYODD y Cyngor Gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023 a 6 Mawrth 2023 (CO517). | |
| 23.28<br>Datganiad Blynyddol ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl | CYMERADWYODD y Cyngor y Datganiad Blynyddol ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl (2021/22) (CO518). | |
| 23.29<br>Adroddiad y Pwyllgor Academaidd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Academaidd a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2023 (CO519). | |
| 23.30<br>Strategaeth y Gymraeg | CYMERADWYODD y Cyngor Strategaeth y Gymraeg (CO520). | |
| 23.31<br>Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023 (CO521).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor benodiad Nigel Roberts yn aelod o Gyngor PCYDDS ar unwaith, gyda'i gyfnod yn y swydd yn cyd-redeg â'i benodiad yn aelod o Gyngor PC. | |
| 23.32<br>Adroddiad y Senedd | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Senedd a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2023 (CO522). | |
| 23.33<br>Enwebiadau Athrawon Ymarfer | YSTYRIODD y Cyngor yr enwebiadau am Athrawon Ymarfer a'u CYMERADWYO (CO523). | |
| 23.34<br>Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2023 (CO524). | |
| 23.35<br>Adroddiad y Pwyllgor Ystadau | DERBYNIODD y Cyngor adroddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Ystadau a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2023 a 15 Mawrth 2023 (CO525) (CO526). | |
| 23.36<br>Materion taliadau | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Taliadau a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2023 (CO527). | |
| 23.37<br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Taliadau | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad blynyddol y Pwyllgor Taliadau (CO528). | |

| Rhif y Cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 23.38 Diweddariad ar gydymffurfio â'r CMA | DERBYNIODD y Cyngor y diweddariad ar gydymffurfio â'r CMA (CO529). | |
| 23.39 Y Defnydd o Sêl y Brifysgol | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar y defnydd o Sêl y Brifysgol (CO530). | |
| 23.40 Datganiadau o fuddiannau | Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| 23.41 Dyddiad y cyfarfod nesaf | Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 7 Gorffennaf 2023. | |

Terfynwyd y cyfarfod am 12.50